**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud o dan adrannau 3(5)(b) a 113(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") ac mae'n diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) 1992 ("Gorchymyn 1992").

Mae adran 3 o Ddeddf 1992 yn diffinio "dwelling" at ddibenion darpariaeth y dreth gyngor ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae erthygl 3 o Orchymyn 1992 yn ei gwneud yn ofynnol trin eiddo sengl sy'n cynnwys mwy nag un uned hunangynhaliol fel pe bai wedi ei ffurfio o'r un nifer o anheddau â'r nifer o unedau hunangynhaliol yn yr eiddo hwnnw. Diffinnir "single property" yng Ngorchymyn 1992 fel eiddo a fyddai, ar wahân i'r Gorchymyn hwnnw, yn un annedd o fewn ystyr "one dwelling" yn adran 3 o Ddeddf 1992.

Mae Gorchymyn 1992 wedi ei ddiwygio unwaith o'r blaen i ddarparu nad yw unedau hunangynhaliol ar wahân mewn cartref gofal yn cael eu hystyried yn anheddau ar wahân (gweler erthygl 3A o Orchymyn 1992, a fewnosodwyd gan Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004).

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn mewnosod erthygl 3B newydd i Orchymyn 1992. Effaith hyn yw fod yn rhaid trin lloches (o fewn ystyr y diffiniad o "refuge" a fewnosodir i erthygl 2 o Orchymyn 1992 gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn) yng Nghymru fel un annedd at ddiben darpariaeth y dreth gyngor, hyd yn oed os yw'r eiddo wedi ei ffurfio o fwy nag un uned hunangynhaliol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Trethi Lleol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.